


Dewch i Ddarganfod Parc Gwepre

Flintshire Countryside Service

Gwasanathau Cefn Gwlad Sir y Fflint



Lle i gerdded
Archwilio Castell Ewlo
Plas Hanesyddol
Gwepre
Gwerddon
i Fwyd
Gwylt



Croeso i Barc Gwepra

Hen goetir hynafol sy'n gyfoeth o fywyd gwyllt a hanes yw Parc Gwepra. Mae'n fan gwyrdd gwerthfawr iawn i drigolion Cei Connah ac mae'n cael ei ddefnyddio gan dros 200,000 o ymwelwyr o bob cwr o'r rhanbarth yn flynyddol. Gofelir am y 160 acer hwn bob dydd gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint fel y gall pawb fwynhau ei fannau agored prydfarth a'i gyfleusterau.

Mae nifer o nodweddion o ddi-ddordeb yn y parc a'r rhai mwyaf nodedig yw'r hanes, y ddaearog a'r bywyd gwyllt rhyfeddol. Disgrifir y rhain yn fanylach yn y llyfryn hwn, ond fel y disgwyliech ar unrhyw dirwedd hanesyddol, mae llawer mwy o gorneli diddorol i'w harchwilio.

Yr enw - Credir bod yr enw Gwepra yn tarddu o'r gair 'Gwy' - dŵr, a 'bre' - bryn, neu Gwybre fel y'i galwyd ar un adeg o bosibl. Mae'r enw Gwepra wedi newid sawl gwaith dros yr 800 mlynedd diwethaf. Rhai o'r amrywiadau yw:- Gwybre, Weppra, Gwepre, Wepper, Wepra, Gweppra a Weppir.

Y Ganolfan Ymwelwyr - Adeiladwyd y ganolfan ymwelwyr ar safle'r hen blas yn 1989. Yr hyn a welwch heddiw yw ail fersiwn o'r gwreiddiol wedi i dân gael ei gynnu'n fwrriadol yma ym mis Gorffennaf 2003 a dinistrio dwy ran o dair o'r to. Gallwch weld marciau llosgi ar un o'r pileri sy'n dal y to.

Pyllau glo - Hen byllau glo a gloddiwyd ar ddechrau'r 1880au ac yn ystod Dirwasgriad y 1930au yw'r pantiau bas sy'n wasgar ar hyd y goedwig.

Pont Aber - Adeiladwyd y bont garreg fach sy'n croesi Nant Gwepra ger y castell ychydig ar ôl Plas Gwepra yn 1800. Mewn gwirionedd, hen bont Pont Saeson oedd hi. Dymchwelwyd honno yn nes i fyny'r dyffryn ac fe'i hailadeiladwyd lle gwelwch hi heddiw.

Rhaeadr - Crëwyd yr argae a'r rhaeadr gan drigolion Fictoriaidd yr hen blas. Yn wreiddiol, roedd y dŵr yn cael ei ddefnyddio i yrru tyrbîn a oedd yn cynhyrchu trydan i'r Plas.

Gerddi'r Hen Blas - Y tu ôl i'r Ganolfan Ymwelwyr, gwelwch weddillion yr hen ardd ffurfiol a arferai gael ei thrin yn ofalus ym Mhlas Gwepra. Edrychwch yn ofalus ac fe welwch weddillion yr adeiladau allanol a'r tai gwyrdd helaeth a oedd yn eu gwasanaethu. Mae mwyafrif y rhwydwaith llwybrau gwreiddiol yn dal ar agor, ac mae'n eich arwain o dan ganopi o goed egosig addurnol, a blannwyd ar ddiwedd y 18fed ganrif. Edrychwch ar y fynwent anifeiliaid, a 'Rector', un o gŵn teulu'r Ffemes, a 'saethwyd' ym Mawrth 1890 ar ôl bod yn lladd wŷn.

Ysbrydion - Yn ôl nifer o straeon lleol, mae ysbrydion sy'n crwydro'r Parc. Un o'r rhai enwocaf yw Nora'r Lleian. Mae'n debyg bod ei bywyd wedi dod i ben mewn modd anffodus iawn ac yn ôl straeon lleol bu i hynny ddigwydd mewn un dair ffordd; naill ai torwyd ei phen i ffwrdd wedi iddi gael perthynas â mynach, neu boddodd ym Mhwll Rosie ar ôl gollwng ei phlentyn anghyfreithlon i'r dŵr, neu cafodd ei tharo gan ffrwydrad ger y rhaeadr!



Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint. Graffeg gan Jane Searle. Mapiau gan Bill Smutts. Ffotograffiaeth © CSyFf oni nodir yn wahanol.



Y Creigiau Coch



Y Creigiau Coch yw un o'r nodweddion mwyaf gweledol a drammatig a welwch wrth fynd am dro trwy Barc Gwepre, ac mae'n hawdd cyrraedd yno. Dyma un o frigiadau caregog niferus y Parc, un arall a ddefnyddiwyd i greu sylfaeni Castell Ewlo.

Tywodfaen caled neu grut melinfaen yw'r creigiau hyn. Cafodd yr enw hwn gan ei fod yn ddeunydd delfrydol i wneud meini melin er mwyn malu brawd a hogi llafnau dur. Roedd gwydnwch y graig hefyd yn werthfawr i wneud cerrig llorio a blociau adeiladu yn y gorrffennol. Mae llawer o'r graig wedi'i defnyddio i adeiladu Castell Ewlo, yn ogystal â'r waliau gwreiddiol prin a adeiladwyd o amgylch yr ystâd a welir ger y Ganolfan Ymwelwyr. Mae'n bur debyg y byddai'r maenordy cyntaf a safai ar safle'r Ganolfan Ymwelwyr wedi'i adeiladu o dywodfaen hefyd.

Craig waddodol yw'r graig goch hon, sy'n golygu ei bod wedi'i didoli a'i dyddodi gan ddŵr. 320 miliwn o flynyddoedd yn ôl (y cyfnod Carbonifferaidd Isaf) roedd Prydain wedi'i gorchuddio gan ddelta afon drofannol enfawr, yn debyg i ddelta'r Ganges neu'r Mississippi heddiw. Golchwyd haenau ar haenau o dywod, llaid a graean yn gyson gan lanw'r môr a llif yr afon i gloddiau

symudol. Edrychwch yn ofalus ar wynebau'r graig ac fe welwch gromliniau llifol clir y cloddiau tywod hyn sydd bellach yn cael eu cadw yng nghofnod y graig.

Mae gan y creigiau liw coch arbennig, sy'n nodweddiadol o nifer o frigiadau tywodfaen yn y rhanbarth hwn. Un o'r cemegau mwyaf cyffredin sy'n ffurfio creigiau yw haearn. Mae'r ddaear ei hun yn cynnwys 35% o haearn. Mae llawer o haearn sydd mewn tywod a graean gwreiddiol wedi ocsideiddio neu rydu yn y tywydd trofannol cynnes a gwlyb a oedd yn gyffredin filiynau o flynyddoedd yn ôl. Dyna sy'n rhoi'r lliw nodweddiadol hwn i'r creigiau.

Mae'r creigiau hyn hefyd yn arwydd i ddaearagwyr y gallai haenau o lo fod yn is i lawr yn nilyniant y graig. Yn wir, mae gan Barc Gwepre nifer o byllau glo brig, a gloddiwyd â llaw cyn i beiriannau trwm y Chwildro Diwydiannol gael eu dyfeisio. Hyd heddiw, ceir haen gyfoethog o lo o dan Barc Gwepre sy'n ymestyn bron at yr A494 yn Queensferry, ond mae'n anhebygol y caiff hwn ei gloddio byth.


Trowch i dudalen 6 i ddarganfod lle mae'r Creigiau Coch i'w gweld. Gellir cael mynediad atynt trwy ddefnyddio'r Prif Lwybr sy'n addas i bramiau a chadeiriau olwyn.



Castell Ewlo



© CADW. Crown Copyright.



© CADW. Crown Copyright.

Rhyfeloedd, sgarmesau a thorri pennau

Roedd Cymru yn 11eg ganrif yn glwtwaith trefnus a heddychlon o deyrnasau Cymreig. Roeddent yn byw o fewn strwythurau o ddeddfau ac arferion ac yn noddi celfyddyd, adeiladu eglwysi, sefydlu abatai a chynhyrchu beirdd gwych.

Ar ôl i'r Normaniaid oresgyn Lloegr yn 1066AD, roeddent yn rhoi tir i'w cefnogwyr fel gwobrau. Pan ddaeth tir yn brin yn Lloegr yn 1070AD penderfynodd y Normaniaid oresgyn Cymru. Aethant ati i greu lleoliadau ar gyfer eu milwyr yng Nghaer a'r Amwythig er mwyn brwydro yn erbyn Cymry Gwynedd a Phowys. O ganlyniad cafwyd brwydrau a sgarmesau dros diroedd rhwng afonydd Dyfrdwy a Chonwy, gan gynnwys ardal Castell Ewlo.

Erbyn 1255, roedd y tywysog grymus, Llewelyn ap Gruffydd, wedi ymsefydlu fel llywodraethwr yng Ngwynedd er bod ei llywodraeth yn ymestyn i Gaer bron. Yn yr un flwyddyn, o ochr Lloegr i'r ffin, ychwanegodd Roger de Mantalt faenor Ewlo at ei

arglwyddiaeth ym Mhenarlâg. Amgaeodd Goedwig Ewlo fel parc hela preifat, gan gynddeirio Llewelyn. Dinistriodd Llewelyn y parc ac adenillodd y tir i'r Cymry, gan wthio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr allan ymhellach. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, adeiladodd Llewelyn "gastell yng nghornel y goedwig" i herfeiddio'r frenhiniaeth Seisnig.

Fodd bynnag, 20 mlynedd yn ddiweddarach, syrthiodd y castell a'r goedwig o'i amgylch i ddwylo'r Saeson. Yn 1277, ar ôl dod â ffyniant a sefydlogrwydd i Lloegr, dechreuodd Harri fab Edward I ar ei ymgyrch i oresgyn Cymru. Mewn ychydig dros fis, cymerodd Iarlwr Warwig Gastell Ewlo a gyrrodd y Cymry allan o Degeingl, sef ardal a gyfatebai'n fras i Sir y Fflint. Gorfodwyd Llewelyn i ildio.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, yn 1282, cododd y Tywysogion Cymreig eto yn erbyn milwyr Lloegr. Cafodd Llewelyn a'i frawd Dafydd eu dal a thorwyd eu pennau. Dyma ddiwedd ymdrech y Cymry, a barodd 200 mlynedd, yn erbyn grymoedd y Saeson Normanaidd.



Castell Ewlo


Esboniad o'r castell

Mae cestyll brodorol Cymreig, fel Ewlo, yn wahanol o ran siâp a swyddogaeth i'r amddiffynfeydd Normanaidd a adeiladwyd ar hyd arfordir gogledd Cymru. Adeiladwyd castell Ewlo i ddatgan wrth y goresgynwyr Seisnig bod coedwig Ewlo yn perthyn i'r Cymry.

Edrychwch ar amddiffynfeydd Ewlo ac fe welwch nifer o wendidau. Mae ganddo lenfuriau isel a disylwedd. Ni adeiladwyd y porthdy i fod yn gryf a thu mewn ceir ardaloedd caeëdig anghyson a fyddai'n anodd eu rheoli yn ystod ymosodiad. Dim ond dau neu dri llawr o uchder fyddai dau dŵr Ewlo, a hyd yn oed pe baech yn sefyll ar ben y ddau, byddai bron yn amhosibl gweld gelynyon yn dod i ymosod arnoch o'r coetiroedd. O dir uchel, gellir edrych i lawr ar y castell cyfan o a cheir manau dall o'r llenfuriau! Nid oedd y Cymry wedi adeiladu eu cestyll er mwyn gwrthsefyll gwarchae. Yn hytrach, cestyll ar gyfer rhyfeloedd gerila oeddent.

Yr hyn sy'n gwneud Castell Ewlo'n unigryw yw'r tŵr crymannon siâp "D" rhydd a elwir y 'Tŵr Cymreig'. Dyma fyddai gorthwr y castell, sef annedd Arglwydd y castell, a'r cadarnle olaf yn ystod ymosodiad. Edrychwch ar y grisiau o bopty i'r bont godi wreiddiol a fyddai wedi rhoi mynediad i 'rodfa'r mur'. Gallwch hefyd weld y tyllau yn wal y gorthwr a fyddai wedi dal trawstiau pren o dan astellau'r ystafell fyw ar lawr cyntaf y castell.

Am fwy o wybodaeth am y safle rhyfeddol hwn, rydym yn argymhell llyfryn a gynhyrchwyd gan CADW dan y teitl, 'Flint Castle, Ewloe Castle', sydd ar gael o'r Ganolfan Ymwelwyr.



Cerdded yng Ngwepra

Mae Parc Gwepra yn llawer mwy nag y byddech yn ei ddisgwyl. Ceir 160 acer o goetiroedd prydfarth a hynafol, pyllau a llennyrch sy'n dilyn Nant Gwepra ar hyd ei chwrs bron cyn belled â phentref Ewlo, ac mae'n barc sy'n sicr yn werth ymweld ag ef.

Nodweddion a thirnodau

- 1. Nant Gwepra**
- 2. Canolfan Ymwelwyr** (gweler tudalen 2)
- 3. Man chwarae** - Y man chwarae mwyaf poblogaidd yn yr ardal. Hwyl a sbri i blant bach a mawr.
- 4. Hen Gwrs Golf** - Dolydd tonnog gyda golygfeydd gwych dros Lannau Dyfrdwy a Chilgwri.
- 5. Y Rhaeadr** - Adeiladwyd yn wreiddiol i yrru tyrbina a gynhyrchai drydan i'r hen blas.
- 6. Pafiliwn Chwaraeon** - Ystafelloedd newid pêl-droed. Ffoniwch Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy ar 01244 814725.
- 7. Pwll Rosie** - Crëwyd y pwll ar ddiwedd y 18fed ganrif ar gyfer difyrwch ac i gadw stoc o bysgod ar gyfer ceginau'r hen blas. Ffoniwch Glwb Pysgota Ceir Connah ar 01244 813674.
- 8. Coedwig Rosie** - Chwiliwch am y Dringwr Bach brown a'r Delor y Cnau glas yn cydio wrth fonion y coed conwydd tal.
- 9. Gerddi'r Hen Blas** - Gerddi pleser gwreiddiol hen Blas Gwepra. Fe'u tirluniwyd yn 1880 ond bellach maent wedi llithro o'u hen ogoniant. Mae nifer o'r nodweddion gwreiddiol yn dal yno megis y fynwent anifeiliaid a gardd goed aeddfed o goed coch anferth a choed pinwydd Chile. Edrychwch ar fur gwreiddiol yr ardd ger y cwrs golff.
- 10. Y Glyn** - Gweirglodd laswelltog a dorri unwaith y fwyddyn i annog blodau gwyllt.
- 11. Y Rhyd** - Man poblogaidd ar gyfer padlo yn yr haf!
- 12. Coed a gweirglodd Taylors** - Mae'n werth cerdded i'r ochr hon o'r dyffryn i brofi tawelwch a llonyddwch haul y bore. Mae'n gyfoeth o loynod byw yn ystod yr haf!



14. Llwybr pren dros y ddol wlyb - Edrychwch ar yr adar sy'n dibynnu ar y nant. Mae'r trochwr a'r siglen lwyd yn ymwelwyr mynych.

15. Creigiau Coch (gweler tudalen 3)

16. Pwll a Phont y Bragdy - nid oes llawer ar ôl o Fragdy Old Fox (1844-c1950) a ddefnyddiai'r ffynnon sy'n bwydo'r pwll hwn. Bydd unrhyw hen boteli a welwch yn y parc yn tarddu o'r fan hon.

17. Basn y Diafol - Pwll bas sy'n ymestyn bellaf i Nant Gwepra.

18. Castell Ewlo - Mae'r daith gerdded rwydd i'r castell yn 1 cilometr o'r maes parcio, ond mae'n gorffen â rhes o risiau (gweler tudalen 4).

19. Pont Aber (gweler tudalen 2)

Mynediad - Mae wynebau'r llwybrau ar flaen y parc yn addas i bramiau a chadeiriau olwyn. Mae gweddill y llwybrau yn mynd trwy goetiroedd a gallent fod yn fwdlyd ac anwastad. Amlygir grisiau a llwybrau serth ar y map. Sylwch mai dim ond ar droed y gellir cael mynediad at Barc Gwepra.

'Parchu, Amddiffyn, Mwynhau' - Defnyddiwch y Côd Cefn Gwlad wrth gerdded yng Ngwepra neu unrhyw le arall yn yr awyr agored. Gallwch gasglu taflen sy'n cynnwys y côd llawn yn y Ganolfan Ymwelwyr neu ar www.ccg.gov.uk

Cŵn - Mae Parc Gwepra yn fan poblogaidd i gerdded cŵn. Rydym yn croesawu perchnogion cyfrifol sy'n gwybod mai eu dyltswydd nhw yw gofalu nad yw eu ci yn achosi perygl neu aflonyddwch. Cadwch eich ci ar dennyn os na allwch ddiybnu ar ei ufudd-dod a glanhewch ar ei ôl bob amser. nhewch ar ei ôl bob amser.

Is-ddeddfau - Mae gan Barc Gwepra is-ddeddfau a orfoeir gan geidwaid. Mae Parc Gwepra hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gallai unrhyw ddirifod neu aflonyddwch ar y safle arwain at ddirwy o hyd at £20,000. Mae'r rhain yn droseddau y gellir galw'r heddlu yn eu cylch. Ceir mwy o wybodaeth yn y Ganolfan Ymwelwyr.

	Hwlau tramwy		Nant Gwepra
	Llybr goddefol		VC Canolfan Ymwelwyr
	Llybr Parc Gwepra		Pont
	Grisiau		Man o ddi-ddordeb

Hen Blas Gwepra



Mae o leiaf ddau adeilad wedi sefyll ar safle'r Ganolfan Ymwelwyr yn y gorffennol. Mae'n debyg bod annedd Sacsonaidd yma mor bell yn ôl â'r 7fed ganrif, dros 300 mlynedd cyn i Lyfr Domesday 1068AD sôn am "William" yn byw ar yr ystad, a oedd wedyn yn eiddo i Abaty St. Werburgh o Gaer.

Ar ôl cyfnod o ryfela ac ansicrwydd lle bu'r Tywysogion Cymreig yn brwydro yn erbyn y Saeson, mae'n bur debyg fod fersiwn hynach o'r plas wedi sefyll ar y safle. Erbyn 1430, unig etifeddes y plas a'r ystâd gyfagos oedd Gwladys. Ddau gan mlynedd yn ddiweddarach, yn ystod Rhyfel Cartref 1645, cofnodwyd bod Edward Morgan, Brenhinwr, wedi aros yn yr hen blas. Mae'n debyg mai ef hefyd yw'r Capten Morgan a reolodd gyfres o ganonau yn ystod gwarchae Caer. Darganfuwyd ei weddillion mewn bedd anhysbys ar ochr cors ger Llanasa lle, mae'n debyg, y cafodd ei lofruddio.

Yn 1695, perchennog Gwepra oedd Basil Fitzherbert.

Cafodd y maenordy ei adael i bedair cenhedaeth o'r teulu hwn nes i orwyr Basil, Thomas, farw gan adael y tŷ i'w weddw Mary Ann Fitzherbert. Aeth hi ati i wneud cynlluniau cyflwm i werthu'r tŷ hynafol a bu'n wag am bedair blynedd arall cyn iddo gael ei werthu yn 1788.

Adeiladwyd y plas Sioraidd clasurol, a welir uchod, yn 1788 gan Edward Jones wedi iddo ddymchwel maenordy hynafol teulu'r Fitzherberts. Dim ond 41 oed oedd Edward, ond daeth yn ddyn cyfoethog ar ôl darganfod plwm ar dir yn Nhreffynnon. Ar y pryd, byddai'r plas naw ystafell wely hwn, a adeiladodd Edward iddo efo a'i wraig a'i wyth o blant, wedi bod yn un o'r tai mwyaf moethus yn y cylch. Ymestynnodd ei ystâd trwy brynu ffermydd Broadoak, Killins, Colomendy a Pen Gwladlys. Roedd hefyd yn berchen ar dir yn Kelsterton, Y Fflint, Llanaergain, Shotton a Phenarlâg. Er mor gyfoethog oedd Edward, bu farw mewn dyled yn 1825 a gwerthwyd llawer o'i eiddo.



Hen Blas Gwepra



Mrs Freme (yr ail o'ch chwith) gyda'i dwy ferch (blaen) a'i dwy wyres (cefn)



Ar ôl hynny, rhentwyd y plas i deuluoedd amrywiol hyd 1865 pan brynodd John Rowden Freme y plas gan deulu Edward Jones. Brodor o Swydd Gaerwrangon oedd John Freme ac roedd wedi gwneud ei arian yn masnachu yn Lerpwl.

Bu teulu Freme yn byw ym mhlas Gwepra am 55 mlynedd. Mae gan nifer o bobl leol atgofion plentyndod o'r teulu, o'u bywydau bob dydd ac o'r dawnsfeydd a'r partiön y byddent yn eu cynnal yno. Mae nifer o ffotograffau ar ôl o ddyddiau olaf yr ystâd cyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, gwelir rhai ohonynt isod. Gerddi'r Hen Blas yw'r unig dystiolaeth sydd ar ôl yn y Parc o'r hen gartref Sioraidd godidog hwn.

Trosglwyddwyd yr ystâd i ddwylo newydd eto yn 1920. Cafodd ei brynu gan Mr Roberts o Wallasey. Ar ôl hynny, gwerthwyd llawer o'r ystâd fel tir adeiladu.

Wedi i'r plas gael ei ddefnyddio gan y fyddin a'r llu

awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, prynodd Cyngor Dosbarth Trefol Cei Connah y plas a hynny a oedd yn weddill o'r ystâd am £10,000 yn 1943. Dyma pryd ddechreuodd y dirywiad trist. Trowyd y plas yn fflatiau, ond yn 1960 dymchwelodd y cyngor dosbarth y plas.

Heddiw, mae'r ystâd yn perthyn i Gyngor Sir y Fflint.



Pwll Rosie, gyda Bythynnod Gwepra yn y pellter

Gwerddon i Fywyd Gwyllt



Gall mochyn daear aeddfed fyw am hyd at 14 mlynedd a phwyso cymaint â 15kg.



Gellir adnabod pob madfall gribog fawr gan y smotiau du unigryw ar ei fol.

Mae coetiroedd Gwepira yn hynafol ac nid ydynt wedi cael eu cyffwrdd gan law dyn. Dyma weddillion olaf coedwig fawr Ewlo, a estynnai i lawr at lannau'r Afon Dyfrdwy yn yr 11eg ganrif. Nid oes unrhyw waith amaethyddol nac adeiladu wedi digwydd ar lawr coetir Gwepira erioed, ac nid yw ei ddolydd a'i byllau wedi'u gwella na'u draenio.

Dros y canrifoedd mae'r sefydlogrwydd tawel hwn wedi arwain at gynefin bywyd gwyllt cyfoethog. Bellach mae Gwepira yn werddon ardderchog i adar, planhigion ac anifeiliaid brodorol yng Ngheir Connah, gan gynnwys rhywogaethau prin a amddiffynnir. Caiff y parc ei nodi a'i amddiffyn gan y gyfraith o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad fel rhan o 'Byllau a Choetiroedd Cei Connah Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)'. Mae'r amddiffyniad hwn yn sicrhau na fydd bywyd gwyllt a chynefinoedd Gwepira yn newid nawr nac yn y dyfodol.

Madfall Gribog Fawr (*Triturus cristatus*)

Mae madfall fwyaf Prydain yn edrych yn rhyfeddol o debyg i ddraig fach, ac mae'n ffynnu ym mhyllau Gwepira. Mae gan yr amffibiaid hyn lawer yn gyffredin â llyffantod a brogaod. Mae angen lle llai ar fadfallod bob amser, boed ar y tir neu yn y dŵr, er mwyn amddiffyn eu croen tenau. Chwiliwch amdanynt ar nosweithiau cynnes yn y gwanwyn yn codi i wyneb y pyllau magu i gael aer. Gall oedolyn yn ei lawn dwf fesur hyd at 12cm o hyd. Mae'r oedolion gwryw yn edrych ar eu gorau yn y gwanwyn pan maent yn tyfu crib ddanheiddog. *MAENT YN BRIN LEDLED Y WLAD AC YN CAEL EU HAMDDIFFYNGAN Y GYFRAITH.*

Moch daear (*Meles meles*)

Mae ein mamal brodorol mwyaf yn byw yn ardal Gwepira. Mae'n defnyddio ei draed blaen a'i grafangau cryfion i gloddio twneli a siambrau. Mae hyd at 12 o foch daear yn byw gyda'i gilydd, ond dim ond un fenyw fydd yn magu ac yn cael rhai bach ym mis Chwefror. Mae moch daear yn treulio'r nos yn bwyta pryfaid genwair, pryfetach a ffrwythau ond maent yn aml yn brysur yn ystod y dydd hefyd. Y ffordd orau o weld moch daear gwyllt yw ymuno â digwyddiad wedi'i drefnu. Gall Grŵp Moch Daear Clwyd (www.badgers.org.uk/clwydbadgergroup) a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint roi mwy o fanylion i chi. *FE'U HAMDDIFFYNNIR GAN Y GYFRAITH.*



Gwerddon i Fywyd Gwylt

Her Bywyd Gwylt

Mae nifer o blanhigion ac anifeiliaid eraill yn dibynnu ar goetiroedd Gwepra i oroesi. Edrychwch ar y rhestrau isod i weld faint o fywyd gwylt cyffredin y gallwch ei weld yn ystod eich ymweliad.

Blodau'r gwanwyn

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Blodau'r Gwynt | <input type="checkbox"/> Cennin pedr gwylt (brodorol) |
| <input type="checkbox"/> Eirlysiau | <input type="checkbox"/> Blodau'r gog (brodorol) |

Coed

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Derw | <input type="checkbox"/> Onnen |
| <input type="checkbox"/> Ceirios Gwylt | <input type="checkbox"/> Criafolen |
| <input type="checkbox"/> Llarwydden | <input type="checkbox"/> Ffawydden |
| <input type="checkbox"/> Cedrwydden yr India | <input type="checkbox"/> Pinwydden Chile |

Mamaliaid

- | | |
|--|-------------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Llwynogod | <input type="checkbox"/> Moch daear |
| <input type="checkbox"/> Wiwerod llwyd | <input type="checkbox"/> Ystlumod |

Adar

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Titw Tomos Las | <input type="checkbox"/> Titw Mawr |
| <input type="checkbox"/> Titw Gynffon-hir | <input type="checkbox"/> Titw Penddu |
| <input type="checkbox"/> Delor y Cnau | <input type="checkbox"/> Dringwr Bach |
| <input type="checkbox"/> Sgrech y Coed | <input type="checkbox"/> Bwncath |
| <input type="checkbox"/> Aderyn Du | <input type="checkbox"/> Robin Goch |
| <input type="checkbox"/> Ysguthan | <input type="checkbox"/> Aderyn y To |
| <input type="checkbox"/> Dryw | <input type="checkbox"/> Hwyaaden Wylt |
| <input type="checkbox"/> Cotiar | <input type="checkbox"/> Cnocell y Coed |
| <input type="checkbox"/> Trochwr | <input type="checkbox"/> Crêyr Glas |

Pryfetach

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Glöyn Byw Brith y Coed | <input type="checkbox"/> Glöyn Byw y Peunog |
| <input type="checkbox"/> Glöyn Byw y Fantell Goch | <input type="checkbox"/> Gwas y Neidr |
| <input type="checkbox"/> Mursen | <input type="checkbox"/> Tarianbryf |


Amffibiaid

- | | |
|-------------------------------------|----------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Llyffantod | <input type="checkbox"/> Brogaod |
|-------------------------------------|----------------------------------|

Gallwch ein cynorthwyo i amddiffyn bywyd gwylt Gwepra a sicrhau bod pawb yn cael mwynhad nawr ac yn y dyfodol trwy ddilyn y ddwy reol syml hyn: Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi. Peidiwch â chasglu blodau yn y parc na'r goedwig.



Sut i ddod o hyd i Barc Gwepra



Cyfleusterau Parc Gwepra

- P** Maes parcio
- ♿** Toileddau
- ♿** Toileddau i'r anabl
- VC** Canolfan Ymwelwyr gan gynnwys gwybodaeth am y parc, toileddau a lle newid babanod
- ♿** Llwybrau cefn gwlad

Rhaglen Digwyddiadau Cefn Gwlad

Mae'r ceidwaid yn cynnal rhaglen o deithiau cerdded, sgwrsiau a digwyddiadau ysbrydoledig ym Mharc Gwepra ac mewn safleoedd cefn gwlad eraill ledled Sir y Fflint. Casglwch bamffledyn yn y Ganolfan Ymwelwyr am fwy o fanylion.

Gwybodaeth teithio

Am fanylion cludiant cyhoeddus sy'n mynd a dod i Barc Gwepra, ffoniwch y Llinell Deithio ar **0871 200 22 33** neu ewch i'r cynllunydd teithio ar www.traveline-cymru.org.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint

Cysylltwch â ni:
Canolfan Ymwelwyr Gwepra, Parc Gwepra, Cei Connah,
Sir y Fflint CH5 4HL
ffôn: 01244 814931
ffacs: 01244 816625
e-bost: countryside@flintshire.gov.uk
www.siryfflint.gov.uk/cefn gwlad

*An English version of this publication is available.
Cysylltwch â ni os hoffech y daflen hon mewn fformat gwahanol e.e. print bras.*

